**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**9 Rhagfyr 2022**

09:00 – 14:00

Lleoliad: Llys Cadwyn, Pontypridd

---

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd); Peter Strachan, Heather Clash, Jan Chaudhry, Alexia Course a Marie Daly.

Hefyd yn bresennol: Scott Waddington a Jeremy Morgan.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datganiadau Diddordeb**

Dim wedi'i ddatgan.

**1d. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2022 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu diweddaraf. [redacted]

**2a. Sylw i Ddiogelwch**

Myfyriodd y Bwrdd ar farwolaeth yn y diwydiant rheilffyrdd ac ar wersi i'w dysgu a'u defnyddio ar gyfer TrC. [redacted]

**2b. Sylw i Gwsmeriaid**

Dros y mis diwethaf, cynhaliwyd gweithdai ar ddefnyddio data'n well er mwyn canolbwyntio mwy ar y cwsmer drwy droi gwybodaeth yn ddeallusrwydd. Cyflwynwyd y Bwrdd i'r dulliau a ddefnyddiwyd a'r camau nesaf.

**4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Trafododd y Bwrdd gynnwys adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am: argaeledd cerbydau a chriwiau; effaith adeiladu OLE ar weithrediadau; lansio Prosiect Mercury; effaith y streiciau diweddar; gwasanaethau bysiau moethus; materion diogelu refeniw mewn perthynas â Gŵyl y Gaeaf yn y Barri; metrigau perfformiad; y dyfarniad cyflog terfynol; a Phrotocol Metro Llinellau Craidd y Cymoedd.

Trafododd y Bwrdd hefyd strategaethau ar gyfer gwella cyfraddau sganio ar drenau. [redacted] Gofynnodd y Bwrdd am ddata cwsmer cudd systematig i fonitro llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir **[Marie Daly i weithredu]**.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y gwaith caled sy'n cael ei wneud ar draws y rhwydwaith.

**5a. Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

Ni chafwyd unrhyw achosion o Basio Signal yn Beryglus (SPAD) yn ystod y cyfnod ac roedd y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn adrodd eu bod yn well na'r targed. [redacted]

**5b. Adroddiad risg rheilffyrdd**

Nodwyd yr adroddiad risg.

**6. Diweddariad masnachol**

Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Mae'r proffiliau galw ar y rhwydwaith yn adlewyrchu'r gyfran uwch o deithio nad yw'n gymudo ar gyfer dibenion teithiau cwsmeriaid, gyda'r cyfnodau brig AM/PM traddodiadol yn ystod yr wythnos yn gostwng o'i gymharu â'r sefyllfa cyn y pandemig. Roedd y galw yn ystod y bore hwyr/canol y dydd yn gyffredinol uwch na'r lefelau cyn y pandemig drwy gydol yr wythnos yn ystod P08.

Nododd y Bwrdd fod y gwaith o gyflwyno rhai o'r cynlluniau newydd ar gyfer tocynnau wedi cael ei ohirio oherwydd streiciau. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu lansio ddechrau 2023.

[redacted]

**7. Cyfrifon Rheoli**

[redacted]

**8. Cyllideb Blwyddyn Ariannol 2024**

Cyflwynwyd y Bwrdd i ddrafft cyntaf cyllideb 2023-24. [redacted]

[redacted]

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn prisiau tocynnau ar gyfer 2023, gyda gwahanol sefyllfaoedd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar.

[redacted]

Nodwyd drafft cyntaf cyllideb 2023-24 gan y Bwrdd.

[redacted]

**10. Llawr cyntaf San Padrig – amrywio prydles**

Cymeradwyodd y Bwrdd gynnig gan landlord swyddfa Tŷ San Padrig i ddileu'r cymal terfynu ar ddiwedd 2024 yn gyfnewid am ostyngiad mewn rhent. Gofynnodd y Bwrdd a fydd modd adnewyddu'r brydles yn y dyfodol os bydd angen **[Alexia Course i weithredu].**

**11. Strategaeth meysydd parcio**

[redacted]

Cymeradwyodd y Bwrdd gymhwyso RPI i'r taliadau parcio presennol a'u cysoni ag RPI prisiau tocynnau trên.

**12. Turn olwynion Caergybi**

Ymunodd Owen Clutterbuck â'r cyfarfod.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**13. Rhaglen Addasu Trenau 231 Hybrid**

[redacted]

[redacted]

**14. Trenau Class 230**

[redacted]

Nododd y Bwrdd fod cynnig wedi'i wneud i'r gweinyddwyr ar gyfer darnau sbâr ac offer.

**15. Diweddariad ar gwsmeriaid a diwylliant**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am nifer o faterion sy'n ymwneud â chwsmeriaid a diwylliant, gan gynnwys ymateb i gwynion gan gwsmeriaid, cynnydd o ran y cynllun 10 pwynt, y strategaeth farchnata [redacted]

**16. Pobl**

Cytunodd y Bwrdd i gydnabod y canlynol drwy lythyrau a / neu wahoddiad i'r Bwrdd i ddiolch iddynt: y tîm a fu'n gweithio ar y dyfarniad cyflog y cytunwyd arno; aelod o staff y bu'n rhaid iddo ddelio â thri hunanladdiad mewn wythnos; a goruchwyliwr a gafodd adborth rhagorol ar ei berfformiad.